Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.12.2022

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# YMGYRCH: #PrynuLleol #CefnogiLleol

Gyda'r Nadolig ar y gorwel, mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol yn parhau. Mae pecyn adnoddau digidol i chi ei ddefnyddio, sy'n cynnwys GIFs a logos, ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://linktr.ee/prynulleol

Yn ychwanegol i'r adnoddau digidol, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu arwyddion a sticeri i fusnesau lleol annibynnol hyrwyddo'r negeseuon Prynu'n Lleol. Mae rhain i'w cael yn rhad ac am ddim drwy yrru e-bost efo'ch cyfeiriad llawn at: prynulleol@gwynedd.llyw.cymru.

Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Fel rhan o'r ymgyrch, mae siopwyr yn cael eu cyfeirio at gyfeirlyfr o siopau lleol a gwybodaeth lletygarwch ar:

https://bit.ly/prynulleol_2020

I ymuno â'r cyfeirlyfr, cysylltwch â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

## ARIANNU: HYBRID SBRI 2.1 – Cystadleuaeth ariannu dichonoldeb nawr ar agor

Bydd cyllid o'r gystadleuaeth yma yn galluogi busnesau a sefydliadau i ddarparu datrysiadau arloesi ac ymchwil datgarboneiddio pellach i gefnogi amcanion a nodwyd yn adroddiad Llwybr Hydrogen Cymru, drwy ddefnyddio hydrogen yn llwyddiannus ar draws economi Cymru. Mae cyllid Cam 1 ar gael ar gyfer contractau dichonoldeb a datblygu (Y&D) ar gyfer prosiectau gyda chostau hyd at £50,000 gan gynnwys TAW. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion prosiect yw 14 Rhagfyr 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i borthol GwerthwchiGymru ar:

https://bit.ly/3UwqlF9

## AMAETH: Mesurau newydd i fynd i'r afael â ffliw adar

O 2 Rhagfyr 2022, bydd yn ofyn cyfreithiol ar bawb sy'n cadw adar i gadw eu hadar dan do neu wedi'u gwahanu mewn ffordd arall oddi wrth adar gwyllt. Rhaid i bob ceidwad adolygu hefyd y mesurau bioddiogelwch ar y safle lle cedwir yr adar a gweithredu ar hynny. Mae canllawiau wedi eu diweddaru ar gael ar:

https://llyw.cymru/rhestr-wirio-hunan-asesu-gorfodol

# DIGWYDDIAD: Dyfodol Digidol Gwyrdd 9 Rhagfyr 2022

Bydd digwyddiad 'Dyfodol Digidol Gwyrdd', i'w gynnal ar 9 Rhagfyr 2022 (10:00am-1:00pm) yn Busnes@LlandrilloMenai, Ffordd Penlan, Bangor LL57 4HJ, yn gyfle i ddathlu cynllun Academi Ddigidol Werdd Busnes@LlandrilloMenai, sydd wedi bod yn gweithio gyda busnesau i gynllunio a chymryd camau i gyrraedd sero net. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3XFfDz6

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr Academi Ddigidol Werdd ar gael ar:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/green-digital-academy

# GWOBRAU: Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2023

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach 2023 yr FSB, sydd ar agor i bob busnes bach a chanolig. Am fwy o wybodaeth, ac i gystadlu, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/enter.html

# CYSTADLEUAETH: 'Let's Celebrate Towns'

Mae'r gystadleuaeth 'Let's Celebrate Towns' yn rhoi cyfle i drefi ledled y DU ennill gwerth £20,000 o arian grant a fydd yn cyfrannu at fentrau cymunedol a chynaliadwyedd lleol, yn ogystal

â hyfforddiant busnes a phroffesiynol i helpu'r trefi i ddechrau ac i dyfu syniadau. Bydd y ceisiadau ar gyfer y gystadleuaeth yn cau ar 14 Rhagfyr 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.visa.co.uk/campaign/talk-of-the-town/

## YMGYNGHORIAD: Arferion cyflogaeth a diogelu data – gwybodaeth am iechyd gweithwyr

Nod canllawiau drafft a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw rhoi canllawiau ymarferol ynghylch trin a thrafod gwybodaeth iechyd gweithwyr yn unol â deddfwriaeth diogelu data a hyrwyddo arferion da. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau drafft yn parhau ar agor tan 26 Ionawr 2023 – mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3UyM2EL

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru